D W Y

UNIV. COL. OF N. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY

E R D D

N E W Y D D

Yn gyntaf

Hanes Ofnadwy a fu ym Mhlwy Llan [illegible] yn Sir *Gaernarfon* fel ag yr enhynnodd [illegible] yn y Plâs yn NEIGWL, ac al llofgodd ô yr Lhillw a chwech o Bobl oedd yn ei Gwelav.

Yn ail

Ymddiddan rhwng Mâb a Merch.

Trefriw Argraphwyd tros *Robert Pichard*

Belisle March.

CLYWCH hanes hynod blin ddychryn:
A darfod am fawr dŷ:
Sef Plas y Neigwl, trwm yw meddwl,
Yn fanwyl fel y fu,
Y ffiam wreichllyd elfen danllyd,
Yn embyd yn ei nerth,
Mewn gwellt ennynnodd yno'n rhywfodd,
Fo gynnodd yno'n gerth,
Ar gefn y nôs dan gô,
Daeth rhybydd iddyn ffô,
A phawb or teulu oedd yn cysgu,
Caen drengu ar fyrr o drô,
Digwyddodd yno fod dau yn effro,
Yn mwyn ymgomio 'n gu,
Yn caru yn unfryd fel dau anwylyd,
Yn net hefyd yn y ty,
Mewn Llofft yr oedd y rhain,
Mewn pur gysonol fain,
Fel *Niwl* ou deutu iw dychrynnu,
Dechreuodd fygu yn fain,
Mewn modd hynodol ac ofnadwy,
Dae attyn fwy fwy o fŵg,
Nes golcuo or grisie nhwy ni chrede,
Fod yno ar droie'r drŵg.

Dyna a edryche dros y grisie,
Gwele dyrre o dân,

A phob peth ar ochr mynd yn wreichion,
Yn fowrion ac yn fân,
Rhoes waedd embyd a dychrynllyd,
Rhag tanllyd penyd pwys,
Nes deffro yn fydyn y Wraig ai phlentyn
Mewn gerwin dychryn dwys,
Drwy 'r Ffeneftr aeth gerbron,
Fe blyge 'r haiarn ffon,
A gado ei gariad yno oi gyrredd,
Oedd fwynedd luniedd lonn,
Dros y murie hynodol neidie
A derbynie 'r Plentyn bâch,
Ai Fam mewn munud or fflam danllyd,
Mewn unfryd atto 'n jâch,
Ai Gariad waftad wen,
Drwy 'r Ffeneftr rhoes ei phen,
Mifiodd ganddi fyned drwyddi,
Am dani gwaifge yn denn,
Yno y tynne fo 'n ei breichie,
Fo lufe ei braich hi oi le,
Fe ffaeliodd ganddo ei chael oddi-yno
Er hir gydio gyd ag ê.

Dyna ffarwel trwm ymadael,
Ei gadael hi yno 'n gaeth,
Hi 'n tôft grio am gael ei helpio,
Mae 'n arw ffaelio a wnaeth,
Tôft gweld y druan ai phen allan,
Ai thraed ar dorlan dân,
Ai pheifie yn flamio ai Chnawd yn ffrio,
Oer gwyno fyth ar gân;

Ir Dŷn 'roedd prudd de bron,
Fod gorfod gadael hon,
Fod wedi glynu 'r galon oreft,
Mewn Ffeneſtr rhwng dwy ffon,
Un darn o honi oedd heb ei loſgi,
Hyn ydoedd gyfri gwael,
O chwech o honyn aeth drwy anhunedd,
I waeledd drymmedd druel;
Hên Wraig ai hwyrion cu,
Oedd yno'n byw yn y Tŷ;
Drwy boeth fflame yr un munude,
Y lladdodd Angau 'r llu,
Gwnaeth nhw 'n farwydos ar y cefnos,
Yr achos ni wŷr yr un;
Ond buon feirw trwy wall amlwg,
Yn ol dyall golwg dŷn,

Fe alle rheini er cael ei lloſgi,
Ai llŵch yn llechu yn llawr
Fod heddyw yn canu heb derfynu,
Yn moli 'r Brenhin mawr,
Mae Barnedigaeth a rhagluniaeth,
Yn helaeth yma o hyd,
O Arglwydd cyfion gwna bob calon,
Mwy bodlon i fynd or byd,
O diwedd triſt a ddoeth
Eu cippio ou cwſg yn noeth;
Ar frys mewn munud hyd ffordd dânllyd,
Drwy 'r embyd penyd poeth,
Rhag Angau embyd llym diſyfyd,
Duw 'n unfryd cadw ni,

Cadw 'r dyfroedd ar tân danodd,
'th degfodd Weision di,
O cadw nî 'r Nêf Dâd,
Rhag pob rhyw sydyn frâd,
Rhag na fydd gobaith jechydwriaeth,
Ygael dy lanwaith Wlâd,
Trwm yw ystyried diwedd caled,
Ddaeth ir trueinied trist,
Mynd mewn fyndod a dychryndod,
Mewn cryndod o flaen Crist.

Rhyfedd rhyfedd a fu ei diwedd,
Yn ol trymmedd dialedd Duw;
Cadd Angau eu cymryd hyd ffordd danllyd,
I symmud bywyd byw,
Pedfafaû Iefu Grist yn mynnu,
Fe ddaeth yw tynnu or Tân.
Fel tri Llange crynno or ffwrnas honno,
Help yno ganddo a gaen;
Duwiolion lawer pryd fy'n colli elw'r bŷd,
Ag fel *Job* ynte er maint y dryge,
Yn cael ei hoedle o hyd,
Ond nid eu profi a gadd y rheini,
Ond mynnu eu llosgi yn llwyr.
Ac am i Heneidie ple mae cartre,
Yr Arglwydd gore ai gwyr,
Nid oes dim or Nenn ir llawr,
Na's gwyr yr Arglwydd mawr;
Mae 'n rhifo yn olau Wallt ein pene,
A'n camre ninne 'n awr,
A'n hyn na farned neb yn galed,

Ar y trueinied trift,
Caen farn ddi-duedd yn ol eu buchedd,
Wrh *Orfedd* croywedd Crift,

Och alar meddwl am Blás y *Neirwl*
Fel daeth y trwbl trwm,
Cael mewn munud drwy fflam dandlyd,
Ei ſymmud yn ei ſwm,
Nhwy oedd iw trigfa yn ſwppera,
Yn gyfa bod ag un,
Ond toc rol huno Duw an gwaredo,
Nid yno yn rainio yr ûn,
Mewn cyffro eu cippio a gân,
Yn fowrion ac yn fân,
I ddierth ſiwrne ymhell ou cartre,
Drwy'r fflamme tonne Tân,
O un o honyn nid oedd gronyn,
Heb dderbyn terfyn tynn,
Ond darn o ddynes hanes hynod,
Ond dymma ſyndod ſynn,
Ag un arall oedd led fyw,
Yn faledd leſgedd liw,
Mae hwn er hynny yn cael ei boeni
Yn dôd i fynu yn fyw,
Wel oll Gweddiwn diwyd þyddwn,
Arſwydwn rhag cael ſen,
Gwneiff Duw ein cadw rhag ein meirw,
Yn y moddion hwnnw Amen.

Ellis Robers

Ymddiddan rhwng Mab a Merch ar fesur Breu-ddwyd. (*ar ei hyd*) *Mab yn dechreu*.

O Gwrando gywreindeg lon fwvndeg lân *ferch*
Rhois arnat yn helaeth fwys afiaeth fy ferch,
A dyro 'n ddi gynen ber *feinwen* bur fwyn
Iawn duedd wrandawiad im caniad a'm cwyn,
Ll[illegible] addfwyn lliw 'r ôd,
Clyw drwy 'r frô drefnus drô, êgluro dy glod,

Ond cyson yw ceisio fy mendio fy mun,
A weli di 'r gymen *Feillionen* fy llun,
O gwrando 'n dueddol dda toddol ddi fâr
A glywi di ergydion y Galon a'th gâr,
Yn howddgar o hyd,
Arnat ti Gangen ffri, mawr ydi fy mryd

O cofia 'r addewidion naws tirion wneist ti,
Wrth garu a Chusanu neu ymwasgu efo mi,
Addewidion Priodas ddwys addas ddisen,
A luniwyd yn brysur dan Awyr y Nenn,
Y Gangen fwyn gu,
Dan y pren cofia Gwen, ryw fargen a fu,

Ferch.

O herwydd i'm chwyddo a ffaelio 'n bur ffôl
Mi ddo'n ewyllysgar ir dalar ar dy ôl,
O waith imi goelio du lelo dy lol;
Mae'n rhywyr Priodi mae *Babi* yn y Bol,
An-fuddiol im fi,
Goelio'n faith enwog jaith dy dêg araith di

O herwydd gwamalrwydd neu dramgwydd di dreſn
Daeth aflwydd or diwedd waith gorwedd ar geſn
Am ddilyn drygioni ar fin colli 'n cô,
Rwi'n gweled y rwan ma'i trwſtan y trô
Mewn gwallgo a phob gwŷn,
Oi yſtat yn ddi-wâd di deimlad yw dŷn,

Mab

Dyma ryw newydd anedwydd yn awr,
Os ydwyt ti felly yn meddu *Bol* mawr,
Mae'n well imi geiſio neu ledio or hên wlâd,
Na gwrando ar Baban anniddan ei nâd,
Gwell trefniad yw troi,
Yn ddi-gel doed a ddêl roi ffarwel a ffoi,

Fereh

Am ddilyn yſgaſnder yn uchder ſy nwy,
Mewn gofid ac gwradwydd oer aflwydd yr wy
'Rol porthi drwy flinder wŷch bleſer eich blŷs,
Nid oes wedi hynny am Briodi mo'r brŷs,
Anfelus yw'r fael,
Am fod yn fwyn, dan y llwyn 'does fawr gwyn i gael

Mab

Ti ddywedaiſt yr awron yn gyſon y gwir,
Peth hawdd yw cael gwradwydd anhylwydd yn hir
Am hynny rhaid ceiſio 'n faith darîo eſo'th di,
Peth mwy anrhydeddus a moddus i mi
Yw Priodi mewn pryd,
Yn y man daw ir lann *Ddyn* bychan ir bŷd.

Dafydd Thomas ai Cant

DIWEDD.

UNIV. COLL. OF WALES & MON. SALISBURY LIBRARY